

Ar ddydd Mawrth, 23 Chwefror, 2010 cynhaliwyd Cyfarfod o Gyngor Cymuned Trefeurig yn Ysgol Trefeurig am 7.00pm

PRESENNOL: Y Cyng. Trefor Davies (Cadeirydd); Mrs G Price; Mrs K Walker; D R Morgan; D Jones; Tegwyn Lewis; D M Hughes; D Sheppard a'r clerc

2702 Derbyniwyd **Ymddiheuriadau am Absenoldeb** oddi wrth y Cyng. R Owen; M Evans a Mrs E Davies

2703 **Materion Personol:** Dim

2704 **Datgan Cyswllt Personol / Rhagfarnol:** Dim

2705 **Cadarnhau Cofnodion:** PENDERFYNWYD cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 19eg Ionawr fel cofnod cywir. Trafodwyd y materion canlynol oedd yn codi o'r cofnodion:

Cofnod 2679 – Biniau Graean: Ni chafwyd ymateb gan Gyngor Sir Ceredigion i gais pellach gan Gyngor Cymuned Trefeurig am finiau ychwanegol i'w gosod yn y Gymuned lle mae amodau gyrru'n anodd pan fydd yna rew neu eira ar y briffordd. Mae'r rhain yn cynnwys ardaloedd na fu modd i'r bysys ysgol fentro iddynt ar nifer o achlysuron dros y gaeaf diwethaf.

Mynegodd yr aelodau'r farn bod yna wahaniaethu yn erbyn plant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig o ganlyniad i bolisi'r Cyngor i raeau priffyrdd yn unig, a pheidio â darparu'r biniau graean ychwanegol y gofynnir amdanynt. Os ydy'r ysgolion ar agor, dylai bob plentyn gael cyfle cyfartal i'w mynychu.

PENDERFYNWYD ysgrifennu unwaith eto i Geredigion ac anfon copi i'r Cynghorydd Sir ar gyfer Cymuned Trefeurig, y Cyng. D Suter, gan ofyn iddo bwysu ar y Pwyllgor Priffyrdd am ymateb.

Cofnod 2685 - Sylwadau ar Gynigion ar gyfer Trefniadau Etholiadol: Yn absenoldeb y Cyng. R Owen PENDERFYNWYD gohirio'r adroddiad hwn tan y cyfarfod nesaf.

2706 **Adroddiadau ar Gyfarfodydd a fynychwyd gan y Cynghorwyr:**

Cyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Penrhyncoch: Mynychodd y Cyng. DM Hughes a T Lewis Gyfarfod o Lywodraethwyr Ysgol Penrhyncoch ym mis Chwefror. Ni chodwyd unrhyw faterion neilltuol.

Cyfarfod Fferm Wynt Airtricity: Adroddodd y Cyng. K Walker fod Cyfarfod mis Chwefror wedi'i ohirio a bydd yn cael ei ail-drefnu.

Ffrindiau Cartref Tregerddan: Mynychodd y Cyng. Mrs G Price eu Cyfarfod yn ddiweddar pan fynegodd y Pwyllgor eu diolch i Drefeurig am y rhodd ariannol

Roedd ymateb y Cyngor i ohebiaeth a dogfennau a dderbyniwyd fel a ganlyn:

2707 **Cyfarfod Ymgynghorol Heddlu Dyfed Powys - Aberaeron 25/02/2010:** Does dim un aelod yn gallu mynychu'r cyfarfod.

Gofynnodd yr Heddlu i'r cyhoedd nodi y dylid cyfeirio unrhyw alwadau nad ydynt yn rhai brys i 101 erbyn hyn

2708 **CS Ceredigion - Cais am farn y Cynghorau ar y posibilrwydd o uno'r Pwyllgor Safonau a'r Is-bwyllgor Safonau:** PENDERFYNWYD cefnogi'r cynnig

2709 **Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:** Llyfryn gwybodaeth newydd. PENDERFYNWYD ei ddosbarthu ac arddangos copïau.

2710 **NSPCC – Posteri'n tynnu sylw at linell gymorth a chyngor 24 awr Cymru ar gyfer plant – 0808 800 5000 help@nspcc.org.uk.** PENDERFYNWYD eu harddangos

2711 **Age Concern Ceredigion – Rhybudd y bydd nifer o wasanaethau lleol gwirfoddol ar gyfer yr henoed yn cael eu cwtogi neu'u dileu o 1 Ebrill 2010 am fod llai o gyllid ar gael**

2712 **Llywodraeth Cynulliad Cymru - ymgynghoriad ar Reoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) diwygiedig 2010:** PENDERFYNWYD eu darllen a'u nodi.

2713 **LICC – Benthg arian - Cynghorau Cymuned a Thref yn 2010-11:**

Cyngor i Gyngorau sydd am wneud cais am ganiatâd i fenthg arian at ddibenion cyfalaf. PENDERFYNWYD ei nodi.

- 2714 Adolygiad Blynyddol o Gynllun Asesu a Rheoli Risg y Cyngor Chwefror 2010 (Amg B)**
Cynhaliwyd asesiad manwl o'r ffactorau risg posib yn seiliedig ar y rhestr wirio a awgrymwyd gan yr Archwilwyr Allanol. Ystyriwyd dulliau presennol o reoli mewnol, ynghyd â chynigion ar gyfer gwella dulliau o reoli risg.
Mewn adolygiad cynhwysfawr, ystyriwyd holl agweddau rheolaeth ariannol y Cyngor, gan gynnwys paratoi cyllideb, gosod archebiant, adolygiadau rheolaidd o'r gyllideb, trefniadau bancio; yr angen i sicrhau bod taliadau a gweithrediadau'n cydymffurfio ag Archebion Sefydlog a bod yna bwerau cyfreithiol ar eu cyfer; taliadau TAW yn cael eu cofnodi a'u hadhawlio. Taliadau teithio a chyflogau'n cydymffurfio â'r graddfeydd a argymhellir yn genedlaethol, a phob penderfyniad yn cael ei gofnodi'r glir ac yn gywir yn y Cofnodion.
Adolygwyd yswiriant y Cyngor i weld a oedd yn ddigonol, gan roi sylw arbennig i'r Yswiriant Ffyddlondeb. Cytunwyd i godi hwn i £16,500 i gwrdd â'r balans banc a amcangyfrifir ar ôl derbyn Archebiant 2010/11 yn Ebrill 2010. Wrth adnewyddu'r Polisi, ystyrir cynyddu Yswiriant Eiddo'r Cyngor yng ngoleuni costau trwsio rheiliau'r Gofeb Rhyfel a ddifrodwyd mewn damwain ffordd yn Nhachwedd 2009. Mae hawliad yswiriant yn erbyn gyrwr y cerbyd ar y gweill ar hyn o bryd. Cadarnhawyd bod cofrestr gyfredol o asedau ar gael; bod yr aelodau'n cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad; maent wedi mabwysiadu'r Cynllun Cyhoeddi Gwybodaeth Enghreifftiol; a Chynllun yr Iaith Gymraeg; mae yna drefn gwyno yn ei lle ac maent yn cadw at y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.
Ar ddiwedd yr adolygiad PENDERFYNWYD parhau i fonitro a gwella dulliau'r Cyngor o reoli risg.
MATERION ARIANNOL
- 2715 Ceisiadau am rodd-daliadau:** PENDERFYNWYD peidio ag ystyried unrhyw geisiadau pellach tan Ionawr 2011
- 2716 Grantiau torri gwrychoedd Cynghorau Cymuned 2010:** Mae cais wedi'i gyflwyno i Geredigion am grant i strimio llwybr troed 9/41 ym Mhenbontrhydybeddau. Amcangyfrif o'r gost - £392 + TAW
- 2717 Cabannau Aros Bws:** Ystyriwyd dau amcangyfrif am lanhau'r cabannau aros bws. Un am £150 + TAW ac un arall am £40 ar gyfer y pedwar caban. PENDERFYNWYD derbyn yr amcangyfrif o £40 a gofyn am gyflawni'r gwaith yn ddi-oed.
- 2718 Cyfrif Cymunedol HSBC – balans banc ar 13/02/2010: £1,000.66**
Cytunwyd i dalu'r anfonebau canlynol:
- 2719 L Griffiths:** Cyfieithu Ionawr 2010: **£83.64** siec 974
- 2720 A Hughes:** Grisau ger mainc: **£103** siec 975
PENDERFYNWYD gwahodd A Hughes i osod yr hysbysfyrdau newydd yn Salem a Bancydarren. Mae Mr T Lewis wedi caniatáu gosod y bwrdd ar ei dir ym Manc y Darren. Bydd bwrdd Salem yn cael ei osod yn lle'r un di-wydr presennol ger wal y Capel
- 2721 GDYT:** Rhentu ystafell ar gyfer Cyfarfod mis Rhagfyr 2009: **£10** siec 976
- 2722 Penderfyniadau Cynllunio: A090869 Banc Llety Spence, Cwmerfyn – estyniadau – caniatwyd**
- 2723 Ceisiadau Cynllunio:**
A100049 4 Glanffrwd, Penrhyncoch – estyniad: Dim sylwadau
A100069 Trysor, Cefnllwyd – Ystafell wydr newydd: Dim sylwadau
- 2724 Cynhelir y Cyfarfod nesaf yn Neuadd y Penrhyn ar ddydd Mawrth, 16 Mawrth 2010 am 7.00pm**
- 2725 Cytunwyd i osod y canlynol ar yr agenda nesaf:**
Ceir wedi'u parcio yn rhwystro mynediad i ystâd Maes Seilo, Penrhyncoch
Gofyn i'r Gymdeithas Dai i wella'r parcio yn Tan y Berth
Cwyno eto am wyneb y ffordd rhwng yr Hen Ficerdy ag IBERS a'r ffordd yn dymchwel ym Mhenbontrhydybeddau.
Garej un o Dai'r Goedwigaeth dan lifogydd a diffyg llwybr troed rhwng y Swyddfa Bost â Than y Berth, Penrhyncoch. Anfon copiâu o'r llythyrau i'r Cyng. Sir, D Suter lle bo'n berthnasol, ynghyd â chais iddo bwyso am ymateb gan Geredigion.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.05pm.